# Cynnwys


**Cyd-destun** **3**
Diben y cynllun cyflwyno 3
Ein gweledigaeth 3
Ein hegwyddorion buddsoddi 4
Ein gwerthoedd 5
Rôl Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol 5
Rôl Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 5

**Blaenoriaethau 2023–2026** **6**
Gweithredu Treftadaeth 2033 6
Cynlluniau a chyllidebau buddsoddi 7
Incwm a chostau 13
Blaenoriaethau gweithredol 14

**Llywodraethu a gwneud penderfyniadau** **15**
Y Bwrdd, pwyllgorau a gwneud penderfyniadau 15
Rheoli risgiau 16
Tryloywder 18

**Effaith a pherfformiad** **19**
Asesu effaith ein buddsoddiad 19
Mesur ein perfformiad 19
Ein safonau gwasanaeth 20

## Rheoli risgiau

Mae ein cofrestr risgiau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y tîm Gweithredol, y Bwrdd a'n Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae ein hawydd am risg yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd unwaith y flwyddyn.

Ein prif risgiau a mesurau lliniaru ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun cyflwyno, 2023–2024, ar y dyddiad cyhoeddi yw:

| Ein risgiau | Manylion | Sut rydym yn rheoli'r rhain |
|---|---|---|
| **Strategol** | Mae'r amgylchedd gweithredu allanol ar draws y DU yn arwain at flaenoriaethau lluosog a allai wrthdaro â'i gilydd yn ystod yr argyfwng costau byw. | • cysylltiadau gwaith agos â rhanddeiliaid a thîm noddi DCMS<br>• cywain gwybodaeth a mewnwelediad a sicrhau bod timau'n cael gweld pob datblygiad<br>• arweinyddiaeth ac ymwybyddiaeth glir gan gyfarwyddwyr o ran yr effeithiau ar eu timau<br>• trin rhaglenni neu fuddsoddiadau sensitif yn ofalus |
| | Pontio i bedwerydd gweithredwr newydd trwydded y Loteri Genedlaethol a threfniadau pontio/dilyniant. | • cysylltiadau agos â DCMS a'r Comisiwn Hapchwarae<br>• cynghori DCMS ynghylch risgiau i gyflwyno gweithredol, cynllunio buddsoddiadau a rheoli'r portffolio<br>• cynllunio senarios ar gyfer ystod o opsiynau ariannol<br>• gweithio ar y cyd drwy Fforwm y Loteri Genedlaethol i rannu mewnwelediad |
| **Economaidd** | Mae lefelau chwyddiant uchel a phrinderau yn y farchnad lafur yn cael effaith ddeilliannol ar gostau cyflwyno cyflenwyr a phrosiectau, gan effeithio ar y sector treftadaeth, yn enwedig o ran costau adeiladu a chyfalaf. | • adolygiad parhaus o gyllidebau wrth gefn y gwledydd a chyllidebau ar gyfer cynyddu grantiau<br>• adolygu'r awydd am risg a phwyslais ar gefnogi cydnerthedd sefydliadau'n gyffredinol, gan gynnwys adolygu cynllunio prosiectau, cynlluniau busnes a chynigion ar gyfer y dyfodol<br>• ailgwmpasu potensial neu ail-beiriannu gwerth mewn prosiectau gyda grantïon, gyda chymorth ein hymgynghorwyr ar y Gofrestr Gwasanaethau Cefnogi (RoSS) |

| Ein risgiau | Manylion | Sut rydym yn rheoli'r rhain |
|---|---|---|
| **Gweithredol** | Sicrhau'r adnoddau, y capasiti a'r sgiliau cywir i gyflwyno gweithrediad strategol y rhaglen waith. | • monitro'n barhaus yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlen, yr adnoddau a'r capasiti cyfredol, gan nodi lle mae angen adnoddau ychwanegol o fewn y cap o 7.75% ar gostau gweithredu<br>• mae'r gyllideb gytunedig ar gyfer 2023–2024 yn cynnwys cyllideb Weithredol i alluogi hyblygrwydd<br>• cynlluniau parhad busnes a ddatblygwyd ar gyfer ffrydiau gwaith rhaglen gweithredu'r strategaeth |
| | Heriau wrth recriwtio staff a chadw staff oherwydd chwyddiant cyflogau real a chyfyngiadau ar dâl ar draws y sector cyhoeddus o'i gymharu â chyflogau sector preifat/trydydd sector. Cyfleoedd datblygu gyrfa. | • parhau i wella prosesau recriwtio gan gynnwys ehangu sianeli recriwtio, prosesau ymgynefino a chroesawu staff<br>• Datblygu cyfleoedd hyfforddi a dysgu perthnasol i staff<br>• Datblygu ein cynnig gwerth cyflogeion |
| | Oedi mewn prosiectau rhyng-ddibynnol sy'n hanfodol i raglen gweithredu'r strategaeth. Mae'r rhyng-ddibyniaethau hyn yn cynnwys ein gwasanaeth rheoli buddsoddiadau, caffael RoSS a chyflwyno cymorth grant. | • llywodraethu prosiectau rhyng-ddibynnol yn effeithiol gyda goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd, y tîm Gweithredol a'r bwrdd prosiectau<br>• cyswllt rhwng arweinwyr prosiectau i nodi materion cyflwyno allweddol a'u dwyn at sylw bwrdd ein rhaglen gweithredu'r strategaeth<br>• penodi arweinydd rhaglen i reoli a monitro'r rhyng-ddibyniaethau rhwng prosiectau cyflwyno allweddol |
| | Risg o fygythiadau seiberddiogelwch sy'n ceisio difrodi, dwyn neu aflonyddu. | • mesurau rheoli gweithredol cryfion a systemau monitro rhagweithiol<br>• asesiadau allanol parhaus o fesurau/rheolaethau diogelwch a phrofion bregusrwydd wedi'u cynnal gan arbenigwyr seiberddiogelwch |

# Effaith a pherfformiad

## Asesu effaith ein buddsoddiad

Mae Treftadaeth 2033 yn disgrifio'r newidiadau rydym am eu cyflawni erbyn 2033 ar draws ein pedair egwyddor fuddsoddi.

Yn ystod y flwyddyn bontio (2023–2024), byddwn yn dylunio fframwaith effaith newydd a fydd yn ein galluogi i werthuso ac asesu ein heffaith yn rheolaidd dros y 10 mlynedd nesaf. Byddwn yn defnyddio'r flwyddyn bontio i nodi dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a datblygu lefelau gwaelodlin, lle bo hynny'n berthnasol. Byddwn hefyd yn sefydlu cylch newydd o adrodd mewnol ac allanol ar ein mesurau effaith a'r camau yr ydym yn eu cymryd i gyflwyno yn erbyn ein nodau. Bydd rhai o'r newidiadau rydym am eu cyflawni hefyd yn gofyn am dystiolaeth ansoddol fanwl er mwyn deall effaith ein gwaith.

Byddwn yn cyhoeddi'r fframwaith effaith cyntaf ar ddiwedd y flwyddyn bontio, gan nodi ein DPA strategol a mesurau gwaelodlin newydd.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl ymchwil, mewnwelediadau a gwerthuso ar gael trwy ein gwefan, i alluogi asesiad llawn o'n heffaith ar dreftadaeth. Trwy gyhoeddi diweddariadau effaith rheolaidd, byddwn yn gwella ein hymagwedd at fesur a monitro effaith ein buddsoddiadau.

## Mesur ein perfformiad

Rydym yn cynhyrchu dangosyddion gweithredol i fesur ein perfformiad trwy ein hadroddiadau i'n hadran noddi, DCMS. Bydd dangosyddion strategol newydd yn cael eu datblygu gan ddilyn y fframwaith effaith newydd. Yn y cyfamser, mae ein dangosyddion ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol:

- gostyngiad mewn asedau treftadaeth yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' o ganlyniad uniongyrchol i fuddsoddiad gan y Gronfa Treftadaeth
- nifer y swyddi a gefnogir yn uniongyrchol o ganlyniad i fuddsoddiad gan y Gronfa Treftadaeth*
- cyfran y ceisiadau grant a brosesir o fewn y graddfeydd amser a gyhoeddir
- y gyfran o'r cyhoedd sy'n ymwneud â threftadaeth, amgueddfeydd ac orielau fel y'i cofnodir yn Arolwg Cyfranogiad DCMS
- nifer y gwirfoddolwyr a gefnogir yn uniongyrchol drwy fuddsoddiad gan y Gronfa Treftadaeth*
- swm a chyfran yr ariannu i'r 20% o ardaloedd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig

*Byddwn yn gwneud gwelliannau i'r ffordd yr ydym yn casglu data gyda phrosiectau er mwyn i ni fonitro'r meysydd hyn yn fwy effeithiol.

## Credydau ar gyfer capsiynau a delweddau

**Tudalen 1 (clockwise from top left):**

Castell Porchester, Hampshire © Sadé Elufowoju/National Youth Theatre

Shrewsbury Flaxmill Maltings © Historic England

North York Moors Railway © Milosz Maslanka/Shutterstock

Parc Cefn Onn, Caerdydd

Neuadd y Dref Rochdale

Ffugwenynen, Gwlad yr Haf © Neil Aldridge/Back from the Brink

**Tudalen 3:**

Stourbridge Glass Museum © Susannah Evans

**Tudalen 4 (left to right):**

Prosiect Reimagine, Remake, Replay, Y Ganolfan Nerve

Morwellt, Gogledd Cymru © Lewis Jefferies/WWF UK

RSS Dundee © Edinburghcitymom/Shutterstock

**Tudalen 20:**

Prosiect Who wants to be an Olympian?, Llundain © Andrew Baker

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen ar gais, gan gynnwys Braille, print bras, sain ac ieithoedd cymunedol. Manylion cyswllt: brand@heritagefund.org.uk